# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn
# 18 Ionawr 2000

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Fformiwla Barnett)

**C7 Geraint Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd bwyso am gael gwared ar elfen gydgyfeiriol fformiwla Barnett yn yr arolwg cynhwysfawr o wariant sydd ar droed? (OAQ2948) [R]

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ystod yr arolwg o wariant, byddaf fi ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cynnal trafodaethau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru.

### Defnyddio Fideogynadledda yn y Cynulliad

**C8 Alun Pugh:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar ddefnyddio fideogynadledda yn y Cynulliad? (OAQ2935)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae darpariaeth ar droed ar gyfer dau fath o gyfleuster fideogynadledda ar gyfer y Cynulliad. Gosodwyd contract i sefydlu, erbyn diwedd Chwefror, rhwydwaith fideogynadledda sydd yn cydgysylltu adeiladau'r Cynulliad yng Nghaerdydd, y 22 awdurdod unedol yng Nghymru, pencadlys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddfeydd is-adrannol adran amaethyddiaeth y Cynulliad. Mae cyfleuster wedi ei gynnwys yn y prosiect a fydd yn gallu cydgysylltu hyd at 24 safle ar yr un pryd. Cyhyd ag y gellir sefydlu cyswllt digonol, gall y safleoedd hyn fod wedi eu lleoli yn unrhyw le yn y byd.

Bydd yr ail brosiect yn darparu cyfleusterau fideogynadledda pen-bwrdd un-i-un rhwng adeilad y Cynulliad a swyddfeydd yr Aelodau yn eu hetholaethau. Cysylltir ag Aelodau'r Cynulliad i drefnu ar gyfer gosod y cyfleusterau o fewn y pythefnos nesaf, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith o fewn y ddau fis nesaf.

### Aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd

**C9 John Griffiths:** Pa asesiad y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud o ba mor bwysig yw bod Cymru'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ2953)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol i Gymru am resymau economaidd a gwleidyddol. Ar yr ochr economaidd, bydd y ffaith fod cronfeydd strwythurol ar gael yn ein galluogi i barhau i adfywio ein heconomi, ond yr ydym hefyd yn elwa o gael mynediad i'r marchnadoedd enfawr sydd yn rhan o'r Gymuned. Mae ein rôl gwleidyddol yn Ewrop yn fater o'r pwys pennaf i Bwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad, ac yr wyf wedi dangos y pwysigrwydd a roddaf i'r mater hwn drwy gadeirio'r Pwyllgor.

Yn ddiweddar, comisiynodd Ysgrifenyddion y Cabinet adolygiad llawn o holl bolisïau'r Undeb Ewropeaidd sydd yn berthnasol i waith y Cynulliad. Bydd pob Pwyllgor Pwnc yn derbyn copïau o'r adroddiadau hyn dros yr wythnosau i ddod. Byddaf yn ymweld â Brwsel ar ddiwedd y mis a byddaf yn trafod materion sydd o bwys i Gymru gyda phobl o'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a

chynrychiolwyr parhaol y Deyrnas Unedig. Bydd y Pwyllgor yn ymweld â Brwsel ym Mawrth fel rhan o'i raglen waith.

### Mesurau Diogelu mewn Compact

**C10 Jane Davidson:** Pa fesurau diogelu y dylid eu cynnwys mewn compact i ymdrin ag achos lle mae egwyddorion sylfaenol compact yn cael eu torri, neu os yw'r cysylltiad rhwng yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol yn methu'n llwyr? (OAQ2944)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae compactau lleol yn cofnodi'r sylfaen y cytunwyd arni ar gyfer perthynas waith. Mae'r gwaith sydd yn rhan o gyrraedd cytundeb o'r fath yn hanfodol er mwyn rhoi'r compact ar waith yn llwyddiannus. Mae gan y naill barti a'r llall gyfrifoldeb i gadw at y cytundebau y daethpwyd iddynt ar y cyd ac i sefydlu trefniadau monitro a chymodi effeithiol i sicrhau bod y cytundebau hynny yn parhau i weithio.

### Dieithrwch Cymdeithasol (Rheoli Perfformiad Athrawon)

**C11 Jonathan Morgan:** Beth fydd effaith trefniadau rheoli perfformiad y Weinyddiaeth ar gyfer athrawon yng Nghymru ar ddieithrwch cymdeithasol? (OAQ2943)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r ateb i'ch cwestiwn cynharach OAQ1128, a roddais ar 30 Medi 1999, yn nodi fy marn ar y mater hwn.

### Cost Defnyddio Ymgynghorwyr Allanol

**C12 Alison Halford:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi dadansoddiad o gostau'r Cynulliad hyd yn hyn o ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorwyr allanol? (OAQ2933)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Disgwylir i wariant y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol ar ymgynghorwyr allanol fod yn £1,882,000. Dadansoddais y gwariant yn fy ateb i WAQ1240 fis Medi diwethaf.

### Ystafell Ysmygu

**C13 Glyn Davies:** Pryd y bydd yr ystafell ysmygu y cytunwyd arni gan Bwyllgor y Tŷ yn ei gyfarfod diwethaf ar gael i'w defnyddio? (OAQ2954)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caiff ystafell ysmygu ei darparu cyn gynted ag y bydd lle ar gael fel rhan o'r newidiadau tymor hwy i Dŷ Crucywel. Yn y cyfamser, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cyfleuster dros dro.

### Trafodaethau ar Gyflogau Cynghorwyr

**C14 David Davies:** Beth oedd natur y trafodaethau rhwng y Prif Ysgrifennydd a'r Cynghorydd Meirion Mathews ar 23 Rhagfyr 1999, mewn perthynas â chyflogau cynghorwyr? (OAQ2935)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni thrafodais fater cyflogau cynghorwyr gyda'r Cynghorydd Meirion Mathews ar 23 Rhagfyr 1999. Dan y ddeddfwriaeth gyfredol, mater i gynghorau unigol yw pennu lwfansau cynghorwyr. Byddwn yn gobeithio bod cynghorau, wrth bennu eu lwfansau, yn rhoi sylw i adroddiad y gweithgor lwfansau Aelodau annibynnol a gadeiriwyd gan yr Athro George Boyne o Ysgol Fusnes

Caerdydd. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n fuan. Bydd yn rhoi canllawiau cyffredinol i gynghorau ar bennu lwfansau cynghorwyr ac yn awgrymu cyfraddau meincnod.

### Bwrdd Croeso Cymru (Hybu Delwedd Cymru)

**C15 Kirsty Williams:** Pa mor bwysig y mae'r Prif Ysgrifennydd yn gweld rôl Bwrdd Croeso Cymru wrth hybu delwedd Cymru gartref a thramor? (OAQ2937)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gan Fwrdd Croeso Cymru rôl neilltuol o bwysig i'w chwarae. Mae marchnata a brandio Cymru yn un o flaenoriaethau allweddol y Bwrdd ac mae wedi ei nodi'n glir yn ei strategaeth dwristiaeth newydd arfaethedig.

### Cynhwysiant Cymdeithasol (Fformiwla'r Asesiad Gwariant)

**C16 Elin Jones:** Sut y bydd fformiwla'r asesiad gwariant cyffredinol yn gwella lefelau cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ2971)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r gwaith ar y fformiwla newydd yn symud yn ei flaen drwy beirianwaith y Cyngor Partneriaeth. Yr ydym ni a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn benderfynol o gael fformiwla decach yn ei lle ar gyfer 2001-02 sydd yn adlewyrchu'n benodol effaith amddifadedd ar y gost o ddarparu gwasanaethau lleol.

### Cadw Cofnod o'r Ailddatblygu ym Mae Caerdydd

**C17 Phil Williams:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod cofnod llawn o'r ailddatblygu ym Mae Caerdydd yn cael ei gadw fel cymynrodd barhaol at ddibenion addysgol a chymunedol yn y dyfodol, ar ôl i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gael ei diddymu? (OAQ2949)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae rhywfaint o ddeunydd eisoes wedi ei roi ar gadw gyda Gwasanaeth Archifau Morgannwg a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn gynnar ym Mawrth bydd y Gorfforaeth yn cyhoeddi adroddiad ar ei gwaith rhwng 1987 a 2000. Mae'r Gorfforaeth yn bwriadu iddo gael ei ddosbarthu'n eang gan gynnwys sefydliadau addysg uwch a phellach a llyfrgelloedd ledled Cymru ac ysgolion uwchradd a chynradd a mudiadau cymunedol yn fwy lleol.

Er mwyn rhoi cymynrodd benodol a pharhaol at ddibenion addysgol a chymunedol i'r dyfodol, mae'r Gorfforaeth yn cefnogi'r syniad o sefydlu prosiect cymynrodd addysgol gyda'r nod o gadw a gwarchod cofnod cynhwysfawr o ddeunydd archif. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan yr Athro Bellamy, Athro Emeritws, Prifysgol Cymru, ac fe'i hystyrir yn brosiect sydd yn gydnaws ag amcanion Agenda 21.

Bydd cofnodion statudol a ffeiliau gwaith yn trosi i gyrff olynol a'r Cynulliad, fel sydd yn briodol. Fel arall, y bwriad yw y bydd y prosiect cymynrodd addysgol yn cael y cyfle i weld a/neu gasglu cofnodion a deunyddiau oddi mewn i'r Gorfforaeth cyn iddi gael ei dirwyn i ben.

### Trafodaethau ar Gyllid Cyfatebol Amcan 1

**C18 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael mewn perthynas â phenderfyniad y Cynulliad ar 10 Tachwedd 1999 i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer Amcan 1? (OAQ2951)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda nifer o bartïon oddi mewn i Lywodraeth y DU ynghylch materion ariannol sydd yn effeithio ar fusnes y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys materion sydd yn berthnasol i'r cronfeydd strwythurol.

## Cyngor Prydain-Iwerddon (Effaith ar y Cynulliad)

**C19 Huw Lewis:** Pa effaith y mae'r Prif Ysgrifennydd yn disgwyl i Gyngor Prydain-Iwerddon ei chael ar waith a phroffil y Cynulliad? (OAQ2941)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd yn cael effaith lesol a gobeithiaf y bydd y Cynulliad cyfan yn cefnogi'r ymagwedd tuag at weithio o fewn Cyngor Prydain-Iwerddon a nodwyd yn fy natganiad llafar heddiw.